Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Ty Sign

**Rhodfa'r Llwyfen**
**Rhisga**
**NP11 6HJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Ty Sign

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Ty Sign |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 494 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 384 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 52 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 33.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 22.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.9% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 08/01/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/01/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Ty Sign yn darparu amgylchedd croesawgar, gofalgar a chynhwysol ar gyfer ei disgyblion. Mae staff yn gwerthfawrogi disgyblion yn fawr ac yn deall ac yn cefnogi eu hanghenion lles yn effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae perthnasoedd yn gryf a cheir awyrgylch cadarnhaol o barch ar y ddwy ochr. Mae'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn ymestyn ethos cynhwysol yr ysgol ymhellach ac mae staff yn darparu'n dda iawn ar gyfer anghenion y disgyblion sy'n mynychu'r CAA.

Mae ymddygiad ar draws yr ysgol yn dda. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion yn gwrtais, yn garedig ac yn barchus yn y dosbarth ac yn ystod amseroedd chwarae. Mae staff yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel, a bod y corff llywodraethol yn cefnogi gwaith yr ysgol i sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu.

Mae disgyblion, rhieni a staff wedi croesawu'r pennaeth newydd ac wedi sicrhau bod ei chyfnod byr iawn yn yr ysgol wedi bod yn werthfawr. Ceir diwylliant da o staff yn gweithio a chynllunio gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau presennol ar gyfer cwricwlwm yr ysgol yn nodi dilyniant medrau disgyblion yn ddigon da. O ganlyniad, er gwaethaf natur ddiddorol llawer o arlwy'r cwricwlwm, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac yn falch o'r disgyblion a'r staff. Fodd bynnag, nid yw gwaith arweinwyr a llywodraethwyr i werthuso effeithiolrwydd yr ysgol yn nodi'n glir yr agweddau sydd angen eu gwella. Nid yw'r ysgol bob amser yn mynd i'r afael â'i hanghenion gwella pwysicaf, ac o ganlyniad, mae anghysondebau mewn elfennau o arfer a darpariaeth yr ysgol. Dros gyfnod, nid yw'r ysgol wedi darparu digon o gyfleoedd i staff ddatblygu eu medrau proffesiynol, er enghraifft trwy rannu arfer effeithiol i gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn mwynhau eu dysgu a'r cyfleoedd a gânt i brofi pethau newydd, chwarae gyda'u ffrindiau a dod yn ddinasyddion egwyddorol-wybodus. Yn gyffredinol, maent yn deall gwerth ffordd iach o fyw, aros yn ddiogel ar-lein a mynychu'r ysgol bob dydd. Fodd bynnag, nid oes digon o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn ddigon rheolaidd ac mae gormod ohonynt yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr bob dydd. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned leol a Chymru. Mae staff yr ysgol yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd diddorol i ddysgu am eu bro, ymweld â lleoedd y tu hwnt i'w bro a chymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol. Mae disgyblion yn mwynhau'r rhain ac yn siarad â balchder am eu profiadau ysgol, eu hardal leol a'u treftadaeth ddiwylliannol.

## Argymhellion

A1 Gwella prosesau hunanwerthuso a gwella'r ysgol fel eu bod yn canolbwyntio ar anghenion uniongyrchol yr ysgol ac yn cynnwys yr holl staff a llywodraethwyr yn llawn

A2 Gwella presenoldeb a phrydlondeb

A3 Sicrhau bod pob un o'r staff yn ymgymryd â dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sydd wedi'i gynllunio'n strategol ac yn cefnogi gwelliant ysgol gyfan, yn benodol trwy fynd i'r afael ag anghysondebau mewn addysgu

A4 Datblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o ddilyniant yn y cwricwlwm, a chynllunio ar ei gyfer, i wella'r cynnydd a wna disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut mae'n mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gan gynnwys y rhai yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yr ysgol. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai mwyaf abl, yn gwneud cynnydd arafach o'u mannau cychwyn unigol.

Wrth ymgysylltu â'i gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus. Maent yn awyddus i siarad am eu profiad ysgol gydag ymwelwyr ac yn rhannu eu meddyliau a'u dealltwriaeth o'u gwirfodd. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn disgrifio'n drawiadol o fanwl sut i greu dreigiau Cymreig o wahanol ddeunyddiau ac yn creu cysylltiadau cywir â diwylliant Cymru. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn parhau i wneud cynnydd da ac yn mynegi eu syniadau'n effeithiol gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i oedran. Er enghraifft, maent yn siarad ag aeddfedrwydd a hyder wrth rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd diogelwch ar-lein.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd buddiol mewn darllen. Mae llawer o ddisgyblion iau yn ymgysylltu â storïau dosbarth

â llawenydd. Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar storïau ac yn eu hail-ddweud gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd i ddarllen yn annibynnol ac yn defnyddio'u gwybodaeth am ffoneg yn dda i gefnogi eu cynnydd. Maent yn creu geiriau yn gywir ac yn dechrau darllen testunau a ddewiswyd yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen â rhuglder a dealltwriaeth briodol ac yn llithrddarllen a sganio'n gywir i gael gwybodaeth o ystod o ffynonellau ar-lein, testunau gwybodaeth a storïau.

Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creu marciau effeithiol ac yn dechrau ysgrifennu geiriau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu addas ac yn dechrau ysgrifennu mewn brawddegau byr a chydlynus. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer gofalu am ddeinosor fel anifail anwes gan ddefnyddio atalnodi cywir a chywirdeb addas wrth sillafu. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu'n briodol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd ac yn defnyddio dewisiadau geirfa mwy dychmygus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ysgrifennu llythyrau perswadiol diddorol at wleidyddion yn gofyn am gofeb newydd ar gyfer tref Rhisga. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion hynaf yr ysgol nad ydynt yn ysgrifennu'n ddigon da ar draws y cwricwlwm, ac nid ydynt yn cyflwyno'u gwaith â gofal digonol.

Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemategol priodol. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu gwybodaeth gadarn a sylfaenol am rif trwy amrywiaeth ddiddorol o weithgareddau ymarferol. Mewn dosbarthiadau iau, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cael gwybodaeth addas am rif ac yn cymhwyso strategaethau defnyddiol i ddatrys problemau sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn adio, tynnu a lluosi rhifau mawr gan ddefnyddio ystod o ddulliau yn effeithiol, ac mae mwyafrif ohonynt yn plotio cyfesurynnau ac yn cyfrifo onglau coll yn gywir. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn camddeall gormod o gysyniadau mathemategol. Nid yw athrawon bob amser yn mynd i'r afael â'r rhain yn ddigon cyflym, ac mae hyn yn rhwystro'r cynnydd a wna disgyblion.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau digidol. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio llechi a chyfrifiaduron yn gadarn i ddatblygu medrau codio sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio dyfeisiau digidol â hyder ac annibyniaeth gynyddol ac yn dechrau eu defnyddio i ymestyn eu dysgu ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn creu cronfeydd data perthnasol o dirnodau'r byd ac yn lleoli, trefnu a didoli gwybodaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu ystod lawn y medrau digidol yn systematig wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Nid ydynt bob amser yn meddu ar y wybodaeth flaenorol sydd ei hangen i gwblhau eu tasgau digidol yn llwyddiannus ac mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'n effeithiol o ran datblygu eu medrau sylfaenol yn Gymraeg trwy eu profiadau cynnar yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn mwynhau dysgu amrywiaeth o ganeuon a rhigymau Cymraeg ac yn ymuno ag arddeliad. Maent yn archwilio amrywiaeth o gemau ymarferol yn hyderus ac yn ymfalchïo mewn defnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud

trwy'r ysgol, mae'r cynnydd a wnânt yn arafu. Mae lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn ymateb yn hyderus yn Gymraeg pan ofynnir cwestiynau mwy cymhleth iddynt. Ond yn gyffredinol, nid oes gan ddisgyblion hŷn y medrau na'r hyder i siarad Cymraeg i safon sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda wrth iddynt wneud cynnydd trwy'r ysgol. Mae disgyblion iau yn perfformio dawnsiau gwerin traddodiadol yn hyderus, gan wneud symudiadau ac ystumiau rheoledig i fynegi eu hunain yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu ystod dda o fedrau artistig ac yn cyfuno lliwiau'n ofalus gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau i greu darluniau diddorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda yn ystod gweithgareddau maes chwarae, mewn clybiau allgyrsiol ac mewn gwersi Addysg Gorfforol. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i ddatrys problemau a meddwl yn feirniadol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn hapus, yn barchus ac yn teimlo'n ddiogel. Maent yn hyderus y bydd oedolion a'u cyfoedion yn eu helpu os oes ganddynt broblem. O ganlyniad i'r cymorth a'r anogaeth gref a gânt, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o les cadarnhaol. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac yn gyffredinol, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion yn absennol yn barhaus ac nid ydynt yn brydlon. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn isel iawn, ac yn yr achosion hyn, mae'n cyfyngu ar y cynnydd a wnânt yn eu dysgu.

Mae ymddygiad ar draws yr ysgol yn gyson dda. Mae disgyblion yn symud o gwmpas yr ysgol mewn modd synhwyrol ac yn dangos parch ac aeddfedrwydd tuag at gyfraniadau disgyblion eraill. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parchu safbwyntiau ei gilydd ac yn ystyried gwahanol farnau mewn modd rhesymol a chytbwys. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhyngweithio ar y cyd, yn cymryd eu tro ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda wrth chwarae a chymdeithasu yn ystod gwersi ac amseroedd egwyl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai yn y CAA, yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn awyddus i fanteisio ar ystod y profiadau dysgu sydd ar gael. Mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau amser priodol ac yn cymryd rhan yn dda ym mywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn dangos lefelau da o gymhelliant, chwilfrydedd a dyfalbarhad yn eu gwersi ac yn galw i gof ac adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn dda. Er enghraifft, maent yn siarad yn wybodus ac yn angerddol am ddiwylliant Cymru wrth greu llwyau caru a chwarae rôl golygfa castell. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb yn dda i'r adborth llafar a gânt gan staff ac yn dechrau ei ddefnyddio'n llwyddiannus i wella'u gwaith pan gaiff ei ddarparu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd ac yn meddu ar wybodaeth addas am yr angen i gael ffordd iach o fyw. Fodd bynnag, er gwaethaf negeseuon clir yr ysgol ynghylch bwyta'n iach, mae dewisiadau byrbrydau a diodydd amser egwyl ac amser cinio yn aml yn afiach. Mae disgyblion o bob oedran yn elwa ar ystod addas o glybiau allgyrsiol a gweithgareddau cyfoethogi sy'n helpu datblygu eu medrau corfforol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall

sut i gadw'n ddiogel pan fyddant ar-lein. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn archwilio ac adnabod peryglon negeseuon e-bost sbam a phwysigrwydd gosodiadau preifatrwydd cryf.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cael dweud eu dweud ynghylch beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae disgyblion sy'n aelodau o grwpiau fel yr Heddlu Bach, y Criw Cymraeg a'r Cyngor Disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig ac yn mwynhau rhannu eu syniadau. Fodd bynnag, megis dechrau cael effaith ar fywyd a gwaith yr ysgol y mae'r grwpiau hyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd datblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol-wybodus trwy eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau a chrefyddau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn siarad yn drawiadol am lafur plant yn Ghana ac yn datblygu dealltwriaeth bwysig o hunan-barch, perthyn, diogelwch ac anghenion ffisiolegol.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel cyfranwyr mentrus a chreadigol. Mae disgyblion hŷn yn dangos annibyniaeth a phenderfyniad da wrth dyfu a gwerthu llysiau fel rhan o ffair haf yr ysgol. Mae ymgysylltiad brwdfrydig disgyblion mewn cyfleoedd dilys fel hyn yn eu helpu i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynaliadwyedd, ac yn sicrhau eu bod yn cael mewnwelediad da i fyd gwaith.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae staff wedi datblygu perthnasoedd cryf a thosturiol â'r disgyblion yn eu gofal. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn dysgu mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a pharchus. Mewn llawer o ddosbarthiadau, gan gynnwys y CAA, mae staff yn gwneud defnydd creadigol a medrus o ofodau ac adnoddau ystafell ddosbarth i sicrhau bod anghenion pob un o'r disgyblion yn cael eu hystyried. Yn y Meithrin a'r dosbarthiadau iau, mae athrawon a staff cymorth yn ymgysylltu â disgyblion a'u herio yn effeithiol. Mae ansawdd profiadau dysgu yn y dosbarthiadau hyn yn dda ac yn annog disgyblion i ddysgu trwy chwarae a darganfod, er enghraifft wrth ofalu am ddreigiau bach fel rhan o'r prosiect am Gymru.

Mae'r ysgol yn datblygu gweledigaeth glir ar gyfer ei chwricwlwm yn unol ag ethos Cwricwlwm i Gymru. Yn benodol, mae athrawon yn defnyddio'r ardal leol yn fuddiol i ymestyn y cwricwlwm. Maent yn cynllunio ystod fuddiol o weithgareddau a phrofiadau dysgu sy'n gwella dealltwriaeth disgyblion o'r fro a'u hymdeimlad o berthyn i'r gymuned a Chymru yn llwyddiannus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai yn y CAA, yn mwynhau'r profiadau hyn yn fawr ac yn siarad amdanynt â llawenydd.

At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn cynnig ystod briodol o brofiadau dysgu sy'n ymgysylltu â'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn addas. Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu ystod eang o dripiau ac ymweliadau sy'n ehangu ac yn cyfoethogi profiadau disgyblion yn briodol. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn mabwysiadu ymagwedd gyffredin at gynllunio'r cwricwlwm ac yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn fedrus i rannu syniadau. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at ymagwedd gyson at ddatblygu medrau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er bod athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu sy'n ddiddorol a difyr, ar y cyfan, yn rhy aml, nid ydynt yn galluogi disgyblion i atgyfnerthu dysgu blaenorol nac ymestyn eu medrau yn ddigon da, yn enwedig yn y dosbarthiadau hynaf. O ganlyniad, mae

gormod o ddisgyblion nad ydynt yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud erbyn iddynt adael yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio strategaethau holi ac asesu ar gyfer dysgu yn briodol i wirio dealltwriaeth disgyblion yn ystod gwersi. Yn yr achosion mwyaf llwyddiannus, mae athrawon yn gwrando'n ofalus ar ymatebion disgyblion ac yn addasu eu haddysgu ar unwaith i wella dysgu'r disgyblion. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig rheolaidd i ddisgyblion ar eu dysgu. Ar yr achlysuron prin pan mae staff yn rhoi amser i ddisgyblion weithredu yn unol â'u hadborth, maent yn gwneud hynny'n effeithiol, ac mae hyn yn eu helpu i wella'u gwaith a mynd i'r afael â chamdybiaethau. Fodd bynnag, ni ddarperir y cyfleoedd hyn yn ddigon aml, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfle i fireinio neu ddyfnhau eu dysgu. Mae hyn yn aml yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl ac angen lefel ychwanegol o her yn eu dysgu.

Mae'r CAA yn darparu amgylchedd dysgu hynod effeithiol a chynhwysol ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol a lles. Mae staff wedi creu hinsawdd ar gyfer dysgu sy'n cefnogi ac yn meithrin pob disgybl yn rhagorol fel eu bod yn datblygu eu hyder, eu caredigrwydd a'u parodrwydd i ymgysylltu trwy amrywiaeth werthfawr o brofiadau dysgu pwrpasol. Mae staff yn y CAA yn cynllunio cyfleoedd dysgu cyffrous i ddisgyblion archwilio, ymarfer ac ymestyn eu medrau yn amgylchedd awyr agored deniadol yr ysgol. Yn yr un modd, mae staff dysgu sylfaen y brif ffrwd yn darparu gweithgareddau gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol, eu medrau corfforol a'u lles yn yr awyr agored.

Mae llawer o staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol. Maent yn dangos ymdeimlad o falchder mewn defnyddio'r Gymraeg yn ystod gwersi ac ar adegau llai ffurfiol o'r diwrnod ysgol. Mae sesiynau dyddiol Helpwr Heddiw yn cynorthwyo disgyblion yn briodol i wella'u Cymraeg llafar, yn enwedig yn y dosbarthiadau iau. Mae'r drefn o ran addysgu am dreftadaeth Cymru yn agwedd drawiadol ar waith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu am Gymru trwy astudiaethau fel y rhai am Gastell Casnewydd, Yr Wyddfa ac Owain Glyndŵr yn gyson fuddiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn teimlo'n falch i fod yn un o ddinasyddion Cymru.

Mae'r ysgol yn elwa ar gael llawer o staff cymorth medrus, brwdfrydig a gofalgar. At ei gilydd, maent yn darparu cymorth medrus i ddisgyblion dan arweiniad athrawon dosbarth a'r Cydlynydd ADY. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn rhoi digon o sylw i sut gallai ddefnyddio staff cymorth yn fwy effeithiol i gefnogi anghenion dysgu unigol disgyblion, datblygu annibyniaeth disgyblion, darparu mwy o her yn nysgu disgyblion neu uchafu'r defnydd o arbenigedd yr aelodau staff eu hunain.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae lefel y gofal, y tosturi a'r cynwysoldeb a ddarperir gan yr ysgol yn gryfder. Mae Ysgol Gynradd Ty Sign yn gymuned ofalgar a chroesawgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael eu trin yn deg. Mae perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn effeithiol, ac yn creu ethos cadarnhaol o fewn yr ysgol. At ei gilydd, mae amgylchedd yr ysgol yn darparu gofod ysgogol ac anogol ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn hynod effeithiol yn yr ystafelloedd dosbarth ar gyfer disgyblion iau. Yn y dosbarthiadau hynny, mae'r ddarpariaeth wedi'i threfnu'n

dda ac yn annog disgyblion i ffynnu a datblygu eu hannibyniaeth a'u hyder yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion o fewn y CAA yn uchafbwynt yng ngwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio staff hynod fedrus yn eithriadol o dda, gan ddarparu her effeithiol, sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd personol cryf. Mae amgylchedd y CAA yn anogol a threfnus, ac yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol. Mae'r ysgol wedi nodi'n gywir fod angen cynorthwyo disgyblion iau sydd ag anghenion sylweddol ac wedi ymateb yn bwrpasol trwy ddatblygu dosbarth ychwanegol sy'n targedu ac yn cefnogi anghenion disgyblion unigol yn gadarn. Mae'r ddarpariaeth yn darparu amgylchedd anogol a diogel i ddisgyblion lle mae staff yn gweithio'n fedrus ac yn effeithiol.

Mae'r Cydlynydd ADY yn gweithio'n agos gyda staff i asesu anghenion disgyblion yn gynnar. Caiff athrawon a staff cymorth gyfleoedd digonol i gysylltu â rhieni, staff ac asiantaethau allanol. Mae'r cymorth gan asiantaethau allanol yn gynhwysfawr ac yn cynorthwyo'r Cydlynydd ADY i nodi'r camau nesaf ar gyfer disgyblion. Yn yr achosion prin lle mae ymyrraeth yn digwydd, caiff effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Er enghraifft, mae rhaglen les wedi'i harwain gan staff medrus yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus. Fodd bynnag, collir cyfleoedd i weddu darpariaeth ychwanegol i anghenion dysgu disgyblion, ac mae cymorth penodol, targedig ac unigoledig yn rhy brin.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl ddisgyblion gyfle cyfartal i fanteisio ar bob agwedd ar y cwricwlwm a'r gweithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys tripiau preswyl. Caiff llawer o ddisgyblion gyfle i gyfrannu tuag at fywyd yr ysgol trwy grwpiau niferus llais y disgybl fel yr Heddlu Bach a'r Criw Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw effaith y grwpiau hyn wedi'i datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion yn arbennig o dda i ddeall eu hunaniaeth a datblygu ymdeimlad o berthyn i'w cymuned leol a Chymru gyfan. Mae staff yn darparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd difyr sy'n cymell disgyblion ac yn eu hannog i ddathlu eu treftadaeth. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cerddorol a chreadigol. Mae pobl sy'n ymweld â'r ysgol yn ymestyn cwricwlwm yr ysgol ac mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar y cyfle i chwarae offerynnau a chymryd rhan mewn dosbarthiadau dawns.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i fod yn ddinasyddion gweithgar a gwybodus a bod yn barod ar gyfer byd gwaith. Er enghraifft, mae athrawon yn grymuso disgyblion i drefnu ffair gyrfaoedd, y mae amrywiaeth o fusnesau yn ei mynychu, fel rhan o'u testun 'Pan fydda' i'n tyfu i fyny'. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion werthfawrogi a dathlu gwahaniaethau, er enghraifft trwy wasanaethau ysgol gyfan a gwaith testun sy'n ymgorffori gwahanol ffydd fel Cristnogaeth, Hindŵaeth a Siciaeth. Mae gwasanaethau'n annog disgyblion i fyfyrio a darparu cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu empathi ac ymwybyddiaeth fyd-eang.

Mae staff wedi sefydlu arferion a systemau gwobrau clir yn llwyddiannus, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion, gan arwain at amgylchedd tawel a gofalgar sy'n ffafriol i ddysgu. Ceir gweithdrefnau perthnasol i hyrwyddo presenoldeb

rheolaidd. Fodd bynnag, er gwaethaf gwaith yr ysgol yn y maes hwn, mae'r effaith yn gyfyngedig a chyfraddau presenoldeb yn rhy isel.

Ceir diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn manteisio ar hyfforddiant priodol, sy'n sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i les disgyblion. Mae gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau bod disgyblion a staff yn ymwybodol o sut i gadw'n ddiogel. Mae'r cwricwlwm yn cefnogi diogelu yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dysgu sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae systemau cynhwysfawr i gadw cofnodion ar waith i sicrhau bod unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu nodi, ac fe gaiff y rhain eu monitro'n drylwyr gan arweinwyr yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth newydd a benodwyd yn ddiweddar wedi sefydlu perthnasoedd cadarnhaol yn gyflym gyda disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr. Mae hi'n bwyllog ac yn ystyriol ac yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol yr ysgol. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus gan yr uwch dîm arweinyddiaeth sy'n sicrhau'n llwyddiannus fod yr ysgol yn lle diogel, croesawgar a chynhwysol ar gyfer disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol, yn fyfyriol ac yn angerddol am yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn deall eu rhwymedigaethau statudol ac yn sicrhau bod polisïau ac arweiniad yn cael eu hadolygu a'u diwygio'n briodol. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau addas ar waith i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac maent yn cefnogi diwylliant diogelu cryf yr ysgol yn dda. Fodd bynnag, nid oes ganddynt rôl ddigon cryf mewn dwyn yr ysgol i gyfrif am y cynnydd a wna disgyblion yn eu dysgu. Neilltuir gormod o amser i gefnogi gwaith gweithredol yr ysgol. O ganlyniad, nid yw llywodraethwyr yn meddu ar ddigon o wybodaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu a'r dysgu, gan gynnwys effaith tlodi ar gynnydd disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi datblygu dealltwriaeth gywir o gryfderau a diffygion yr ysgol yn gyflym. Fodd bynnag, nid yw cynllunio presennol yr ysgol ar gyfer gwelliant yn canolbwyntio ar ei hanghenion uniongyrchol yn ddigon da. Nid yw hunanwerthuso yn ddigon rheolaidd, trylwyr na chywir i nodi beth mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a beth mae angen iddi ei wella. Er enghraifft, dros gyfnod, nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael ag anghysondebau yn ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion. At ei gilydd, ni chaiff staff a llywodraethwyr gyfleoedd digonol i fod yn rhan o waith hunanwerthuso, ac o'r herwydd, nid yw prosesau presennol yn adlewyrchu dull cynhwysol, datblygiadol na buddiol. Ar yr achlysuron prin pan mae'r ysgol wedi nodi'n gywir y gwelliannau sydd eu hangen, mae staff yn dangos gallu i effeithio ar newid cadarnhaol. Er enghraifft, mae gweithredu rhaglen ffoneg newydd yn datblygu medrau darllen cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yr ysgol yn rheoli'r gyllideb yn effeithlon. Mae'r corff llywodraethol yn goruchwylio cyllid yr ysgol yn dda ac yn cefnogi arweinwyr yn dda pan fyddant yn gwneud penderfyniadau. Mae arweinwyr wedi defnyddio arian yn synhwyrol i sefydlu dosbarth ychwanegol ar gyfer disgyblion iau ag anghenion dysgu a lles penodol. Mae'r ddarpariaeth hon yn darparu amgylchedd diogel, tawel a difyr sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu a'u datblygiad cynnar. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwneud y defnydd gorau o fedrau staff cymorth nac yn

cynllunio eu defnydd ar draws yr ysgol yn ddigon gofalus. O ganlyniad, nid yw'r cymorth ar gyfer disgyblion bob amser yn ddigon penodol i'w hanghenion unigol.

Nid yw systemau a phrosesau ar gyfer olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Defnyddir profion safonedig i gofnodi deilliannau bob tymor mewn rhai agweddau ar y cwricwlwm fel darllen a mathemateg. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth ysgol gyfan o'r cynnydd y dylai disgyblion ei wneud, na'r cynnydd y maent yn ei wneud. Nid yw'r gwaith i ddiffinio dilyniant o fewn cwricwlwm yr ysgol a chynnydd yn nysgu'r disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae hyn yn rhwystro'r graddau y mae athrawon yn gweddu eu haddysgu i anghenion disgyblion, yn enwedig yn y dosbarthiadau hynaf.

Caiff pob un o'r staff gyfle i ymgymryd â dysgu proffesiynol. Mae ychydig o staff wedi ymgymryd â rhaglenni rhanbarthol ar gyfer arweinyddiaeth, athrawon newydd gymhwyso a lles. Mae ychydig iawn o athrawon wedi ymweld ag ysgolion eraill. Pan mae hyn wedi digwydd, mae staff wedi defnyddio'r profiadau hyn yn dda i ddatblygu darpariaeth gref dan do ac yn yr awyr agored yn y dosbarthiadau iau. Mae pob un o'r staff wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn diogelu ac Atal, sy'n helpu sicrhau bod yr ysgol yn amgylchedd diogel a pharchus ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynllunio dysgu proffesiynol yn strategol, ac o'r herwydd, nid yw'n cefnogi gwelliannau ysgol gyfan yn ddigon da. Mae'r ysgol yn cynorthwyo'r proffesiwn addysgu ehangach yn dda trwy groesawu myfyrwyr prifysgol bob blwyddyn. Mae'r trefniant hwn hefyd yn fuddiol i'r nifer fach iawn o staff yr ysgol sy'n derbyn hyfforddiant defnyddiol a chyfleoedd cadarn ar gyfer cydweithio â chydweithwyr eraill.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  25/03/2024